



Chwefror yn y Gofod

Yr Orsaf Ofod Rhyngwladol yn gwibio heibio'r lleud uwchben Gwynfynydd, Cwm Dolgain, Trawsfynydd. (Symydiad o'r dde i'r chwith. 6:56pm 19/02/13). Pwy sy' eisiau mynd i Bannau Brycheiniog i wyllo'r sêr pan mae Eryri'n cynnig hyn!!!!

Llun a hanes: Keith O'Brien

Hanesion gofodaidd eraill y mis rhyfeddol hwn...

ewch yma i weld hanes asteroid 15 Chwefror:

<http://earthsky.org/space/asteroid-2012-da14-will-pass-very-close-to-earth-in-2013>

A dyma ffilm gwirioneddol hanesyddol - y ffilm cyntaf erioed mae'n debyg o faen mellt yn taro'r ddaear

<http://uk.news.yahoo.com/meteorite-shower-hits-russia-injuring-400-084133496.html>

rhain i'w gweld ar Facebook Llên Natur hefyd.

A pheidiwch anghofio am y maen mellt a drawodd westy'r Prince Llywelyn yn 1948. Cewch yr hanes gan lygad dyst, sef y diweddar Eira Taylor,

<http://www.lleennatur.com/gwyn/sain/EiraTaylor/taranFolltBeddgelert.mp3>

Rhan o adroddiad "sgwp" Dyfed Evans yn Y Cymro ar gan faen mellt yn 1948:

"...Yn ffodus, disgynnodd ar yr unig ystafell wag i fyny'r grisiau [yng Ngwesty'r Prince Llywelyn]. Cysgai'r gwesteion heb wybod dim am y garreg pum pwys, chwe modfedd o rown, a faluriodd nenfwd y 'lounge' ar yr un llawr. Yr oedd Mr a Mrs Alwyn Maines, ymwelwyr o Sir Gaerhirfryn, o fewn pedair llath i'r lle disgynnodd - a chysgasant drwy'r holl helynt. Clywyd ergydion gan amryw o drigolion y cylch o Borthmadog i Feddgelert. Wedi tynnu'r llenni i'r naill du ac agor y ffenestr led y pen yn ôl ei arfer, gorweddai Mr. Ephraim Williams, Danw Deg, Llanfrothen yn effro yn ei wely yn y plygain. Yr oedd yn noson loergan ddigwmwl a tharanau y pethau olaf a feddyliai amdanynt. Am dri munud ar ddeg i dri clywodd ergydion yn yr awyr ond o godi i'r ffenestr ni welai neb. Ni allasai ddirnad beth oedd y swm, ond rhyfeddai na fuasai holl drigolion y pentref wedi codi. Yn y gwesty ym Meddgelert deffrowyd Mr a Mrs W. Tillotson, y perchnogion, gan ergydion fel bomiau'n ffrwydro. Cyfarthodd Rex eu ci defaid, ond ni ddeallwyd am y difrod nes daeth eu morwyn, Mrs Kate Williams, i lawr yn y bore. Ar y dechrau, tybiai Mr. Tillotson mai darn o'r mynydd sy'n codi'n syth tu cefn i'r gwesty, oedd y garreg, ond yr oedd yn amlwg iddi fod mewn tân. I'r llygad anghyfarwydd ymddengys y garreg fel craig ithfaen wyrddlas a geir yn gyffredin yn rhai chwareli Gogledd

achlysur trawiad gwesty'r Prince Llewelyn, Beddgelert,

Cymru ond adwaenai Dr. E.V. Rieu (cymrawd o'r Gydeithas Ddaearegol Frenhinol a arhosai yn y gwesty), hi fel craig "peridotite" - rhan o seren wib"

Wrth ymweld â'r arddangosfa fechan a drefniwyd gan Brifysgol Caerdydd i ddathlu hanes taranfollt Beddgelert yn Neuadd Gymunedol y Pentref ar y 19eg Medi eleni llwyddodd gohebwy'r mentrus Llên Natur (!) i gael yr hanes gan un o drigolion y pentref sydd yn cofio'r digwyddiad yn dda. Os am glywed y cyfweiliad gyda Mrs. Eira Taylor ewch i wefan Llên Natur a chliciwch ar yr eicon uwchben Beddgelert ar y map.



Pont Beddgelert yn y dauddegau ugain mynedd cyn trawiad taranfollt i'r gwesty ar y dde

Haul a thrydan, Waunfawr a Rhuthun



Cymhariaeth dwy set o ganlyniadau 2012 paneli solar ar douau yn y Waunfawr (uchaf) a Rhuthun (isaf). Mae'r graff yn dangos maint yr uwchfioled fesul mis yn y ddau, ac fe ellir eu dehongli fel mynegiant o gryfder yr haul.

Data Dafydd Owen a Gwyn Williams

Y Llewyn



Dyma beth a welwyd mewn gardd tŷ yn Tatamagouche, Nova Scotia wythnos yma (24/1/13). 'Roedd yna sibrydion bod rhai yn yr ardal, a dyma'r dystiolaeth. *Lynx* yw'r creadur yma, dipyn mwy na chathod sy'n dod i'n gerddi ni yma yng Nghymru.

Llun a hanes: Elizabeth Spence (trwy law Ifor Williams)

Ewch i Bwletin 10, tudalen 3 i weld hanes y llewyn (lynx) yn y Gododdin o'r Hen Ogledd

<http://www.lennatur.com/files/u1/Cylchgrawn10.pdf>

O fynwent Beddgelert...



Eglwys a mynwent Beddgelert - cyn symud y cerrig beddau. Mae'n siwr mai dechrau'r rododendrons sydd yn y cefndir [saeth].

Elinor Roberts

Y fasnach cig ceffyl... 1948

Hen ffilm newyddion *Pathé* dadlennol o ddyddiau llwm ar ôl y rhyfel. Cliciwch <http://www.youtube.com/watch?v=7gaZdHLB5tY> neu ewch i'n gwefan a chlicio ar y sribedyn glas gyda "Facebook" arno

Diolch i Steve Roddick am dynnu ein sylw

Anifail, llysieuyn ynteu mineral?



Ydych chi'n ddigon hen i gofio'r rhaglen cwis ar y radio *Animal, Vegetable or Mineral?*. Dyma lun (uchod) a neges a gyrraeddodd Llên Natur ar y 14 Ionawr eleni oddwrth Keith O'Brien: "Sylwais ar y ffwng (?) crisialaidd yma ar nifer o ganghennau marw ar lawr y goedwig wrth ymyl canolfan Coed y Brenin heddiw OS 724268. Carwn wybod beth yw?". Wel son am gychwyn dadl ymhlith y gwybodusion. Fel hyn aeth yr ohebiaeth (yn ei threfn amser):

BJ Yn bendant math o ffwng ydi o. Rwyf hefyd wedi gweld hwn yma yn y Canolbarth ac wedi tynnu llun ohono. Peth ydi ffeindio'r llun ac beth oedd!!

TE Un o'r 'ffyngau' llysnafeddog (*slime moulds*) ydi hwn [er yn perthyn yn agosach at facteria neu furum]. Teulu mawr sy'n byw ar wahân yn y pridd fel celloedd unigol Go brin y b'asa fo'n dwad i'r wyneb ar dywydd rhewllyd a phetae o'n ddigon gwirion i wneud hynny a chael ei ddal gan rewiad sydyn mi fydda', am ei fod mor ddelicêt a llaith, wedi mynd yn sglwitsh yn syth petae o'n rhewi. Yn 'y marn i, h.y....

DE There is a white *Myxomycete* that looks superficially similar called *Ceratiomyxa fructicolosa* but it would have been quite soft and I've never seen it so "fluffy". The fungus in the photo doesn't seem to have any proper structure and I can't at present think of anything else to suggest.

KO'B Dechra ama' mai rhew 'di o, er oedd hi ddim i weld yn rhewi ar y pryd ac oedd y car (tua chwarter milltir i ffwrdd yn dangos 4°C). Beth tynnodd fy sylw oedd fod o ar rhai a ddim ar rhai eraill.

DE Looks like this is the answer. No wonder it didn't have structure! ... there is no substitute for seeing the specimen myself.

CA I don't think its *Ceratiomyxa*, its a bit too fibrous and *Ceratiomyxa* is an aggregate of small fruiting bodies. It may just be fungal mycelium but ideally one would need the specimen to have a closer look.

KO'B Newydd wyllo Winterwatch Unsprung - 'roedd un neu ddau o'r gwyliwyr wedi anfon lluniau o "Frost Flowers" i'r rhaglen oedd yn debyg iawn, iawn i'm llun!

CA I was going to ask - was the 'fungus' found during the frosty spell in December? They've just shown something very similar on the Winterwatch-ice crystals being drawn out of plant tissues by capillary action apparently.

BJ I have my doubts about that - Frost Flowers. Unfortunately, the snow has come before I could photograph the specimens near me (Llangamarch).

Pysgodyn bys a bawd



Oeddech chi'n gwybod am yr enw yma? Meddai Tony Lovell i mi: "enw am y John Dory yw hwn, i wneud efo'r marc pob ochor i'r pysgodyn". <http://www.nhm.ac.uk/research-curation/scientific-resources/biodiversity/uk-biodiversity/uk-species/checklists/NHMSYS0020547816/version1.html> Ifor Williams


Gweler Bwletin 58 ("Sil y Bodiau"). Ein enw arno fo yn rhestr Cymdeithas Edward Llwyd ydi pysgodyn darn arian (o achos y marc pob ochor?.. wel na, ddim yn union, darllenwch ymlaen...). Ei enw Lladin yw *Zeus faber*, sef duw, roedd y pysgodyn yma yn sanctaidd i'r duw Zeus, a *faber*, sef crefftus. Tarddiad yr enw Saesneg John Dory yw, yn ôl rhai, "from the French *jaune d'oree* ("with a yellow edge"), in reference to the fish's coloring? Or perhaps a corruption of *jaune adorée* = the adorable or sacred yellow fish. Or perhaps even from the Italian 'janitore' (janitor). *dory* <[F] *doree* = gilded". Fe'i gelwir hefyd yn *St. Peters fish* "[which] refers to the "thumbprint" on the side of the fish supposedly left by St Peter when he caught the fish. In its mouth was a coin to pay the temple tax collectors (*Matthew xvii, 24-27*).

Yr enw Cymraeg safonol: pysgodyn darn arian - oherwydd yr adnodau uchod, y darn arian a dynnwyd o geg y pysgodyn gan Pedr. Yn Llydaweg = *yar-vor* = 'iâr fôr'. Mae na ddau smotyn, un pob ochor ac yn ol y chwedl marciau bys a bawd Sant Pedr yw rhain. Sylwer nad yw Sant Mathew yn dweud sut fath o 'sgodyn y mae Pedr yn ei ddal, 'mond y sgodyn cyntaf, a dim son am y marciau bys a bawd... Tybiaf fod y chwedl wedi'w greu i guddio y faith fod y 'sgodyn yn sanctaidd i'r prif Dduw Paganaid - Zeus.

Sion Roberts

Bara cletsh neu bara ropin

Wedi dod ar draws y cofnod yma [yn trafod y gair Saesneg tafodiaethol (?) *reemy*] am y flwyddyn 1866 yn llyfr (llawysgrif) W Meredith Morris [yng nghasgliadau Sain Ffagan] o Goelion Gwerin De Sir Benfro.



Gaf fi ofyn, os gwelwch yn dda, a oes son bod 1866 yn flwyddyn o gynhaeaf gwael yn Sir Benfro? Hedydd Hughes


Wel chi frodorion Sir Benfro neu Forgannwg; beth yw bara cletsh neu fara ropin i chi a beth oedd ei arwyddocâd i dywydd y flwyddyn 1866? Gyda llaw, yn ôl Tywyddiadur Llên Natur doedd haf 1866 ddim yn rhy wael - ond mi roedd yn flwyddyn o golera drwg yn y gogledd.

Data glaw Oes Victoria

TAFLEN GYDMAROL
O DDIWYNSIAD Y GWLAW YN FFFESTINIOG A RHANAU EBALL O OGLED CYMRU, AM
AMRYW FLWYDDOEDD.

LLEOED.	1865	1866	1867	1868	1869	1870	1871	1872	1873	1874	1875	1876	1877	1878	1879	1880	Cyfr. med. 1865-1880.	Cyfr. med. 1865-1880.
Ffestiniog	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00
Bala	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00
Pwllheli	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00
Porthmadog	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00	11.00

Nosau - Ni chafwyd y cyfrif o gwl, os an ôl a'r rhif mwyd, o'r hyspwyddiadau a'r hyspwyddiadau yn y gogledd.



Diolch i Steffan ab Owain

Y data gwreiddiol yw'r tabl uchaf, ac addasiad o ddata manau dewisol yw'r isaf. Roedd Bro Ffestiniog cymaint yn wlypach hyd yn oed na'r Bala ac 1877 yn arbennig o wlyb. Dyma ddywed John Kington yn ei Gronoleg Tywydd (Climate and Weather, Harper Collins) am haf y flwyddyn honno:

*Wet summer, average temperatures - June: very warm dry, Azores high extended over much of Europe; July and August: showery with thunder. Cool wet autumn - October: North Sea storm surge. * 14-15 October: severe storm. Cyclonic southwest to westerly situation, inferred storm-force southwesterly gales, much damage both on land and at sea, many trees and telegraph poles blown down. November: mild mainly wet; 11 November: cyclonic southerly situation, extremely low pressure (940 mb) at Monach Lighthouse (Outer Hebrides), inferred deep depression over northwest Scotland.*

Lluniau hanesyddol...eto!

Evch i www.thephotopalace.blogspot.co.uk i weld lluniau nas gwelwyd erioed o'r blaen a dynnwyd yn ystod yr ail ryfel byd. Fe'u cafwyd mewn hen gamera, na welsant olau dydd erioed.

Daeargryn Arfon Chwefror 2013

Gwalchmai, Môn: 7 Chwefror 2013; Meddwl fod lori go drwm yn pasio cartref mam yng Ngwalchmai. Môn yn ara deg- ond clywed ar y radio y bore wedyn mai daeargryn oedd o. Olwen Evans

Dyma bwt o wybodaeth y British Geological Society am y digwyddiad ac yn holi pobl yn y cyffiniau amdano: DATE 07/02/2013; ORIGIN TIME 22:41:04.0 UTC; LOCATION 53.125 -4.231; DEPTH 9 km; MAGNITUDE 2.3; LOCALITY: CAERNARFON, GWYNEDD Felt Caernarfon, Anglesey, Porthmadog, Bangor... http://www.earthquakes.bgs.ac.uk/earthquakes/recent_uk_events.html

Ydfrain Treiorwerth Môn (Bwletin 58)...mwy

...rook shooting during May is one of the countryside's oldest traditions. At this time of year - some even pinpoint May 13 as being the optimum date - young rooks are clambering out on to swaying branches for the first time....The unlucky branchies, as young rooks are sometimes labelled, are often collected to form the main ingredient of rook pie, a country dish that has been around for centuries and even merited a mention in Dickens's *Pickwick Papers*. Some claim that four and 20 blackbirds baking in a pie are not the songbirds that pull worms from your lawn, but that the nursery rhyme refers instead to rook pie, at that time a staple dish of the poor in spring.

Mwy....<http://www.telegraph.co.uk/gardening/3300692/Pie-from-the-sky.html#>

a chwiliwch am y gair ydfran (sef llun gan Eifion Griffiths) yn Oriol Llên Natur os ydych chi'n ffansi reset!

Hwyaden Mwsgofi

The Muscovy Duck (Cairina moschata) is a large duck native to Mexico, Central, and South America. Feral Muscovy Ducks have been reported in parts of Europe.



Gwelais hwn yng Nghae Ddol, Rhuthun (27 Ionawr 2013). Ydy o wedi denig o rywle tybed? Gwyn Williams

Although the Muscovy Duck is a tropical bird, it adapts well to cooler climates... In general, Barbary Duck is the term used for C. moschata in a culinary context. ...They have been bred since pre-Columbian times by Native Americans and are heavier and less able to fly long distances than the wild

subspecies... The term "Muscovy" means "from the Moscow region", but these ducks are neither native there nor were they introduced there before they became known in Western Europe. It is not quite clear how the term came about; it very likely originated between 1550 and 1600, but did not become widespread until somewhat later.

http://en.wikipedia.org/wiki/Muscovy_Duck

Diolch i Rhys Jones am ein rhoi ar y trywydd cywir wrth ateb cwestiwn Gwyn

Crynodeb tywydd Penisarwaun 2012

Mae'r hen drigolion yn cofio gaeafau 1947, 1963 ac 1979 oherwydd y tywydd oer gydag eira a rhew am wythnosau, gyda'r afonydd a'r llynnoedd wedi rhewi. Heb os mi fydd 2012 hefyd yn aros yn cof oherwydd y glaw di-baid. Cawsom 1888mm. a hwnnw'n disgyn arnom ar 242 o ddyddiau o'r flwyddyn. Serch hynny y flwyddyn wlybaf yn y cyfnod 1984-2012 oedd 2000 pan dadlwythodd y cymylau 1959 mm. arnom. Fe ddaeth y glaw trwm yn ystod Hydref, Tachwedd a Rhagfyr, ond yn 2012 daeth bron ar hyd y flwyddyn. ...Ac mae y diwrnod gwlybaf yn hysbys i bawb sef yr 22 o Dachwedd pan gwelsom 64mm hynny yw 2.5 modfedd yn dod i lawr ar ein pennau.

Ewch i'r Tywyddiadur i gael adroddiad llawn Les Larsen

Roedd y flwyddyn yn drychinebus i amaethwyr. Ewch i

<http://www.guardian.co.uk/environment/2013/feb/23/weather-battered-farmers-hope-food-security-will-help>

Tywydd haf 1868

"yng nghanol llyfr poced Huw Derfel cefais hyn wedi ei ysgrifennu â phensel blwm, am wres mawr yr haf 1868: 'Y Gwresfesurydd yn 134, ac ychwaneg am amryw ddyddiau olynol yng Nghloddfa y Cae, Gorffennaf 1868. Dywedir fod dau ych i'r un gŵr ym Môn wedi syrthio i lawr yn farw o fewn ychydig i'w gilydd o eisiau dwfr. Mae'r Coed Derw yn gwywo gan y gwres yn y Bryn Llwyd wrth y Chwarel. Delir eogiaid gan y ciperiaid yn Ogwen, a dodir hwy mewn dwfrlestri i'w symud i'r Llynau mwyaf. Nid oes nemor wlith un noson. Mae'r adar bron wedi tewi canu. Mae nifer mawr o'r chwilog hedegog a elwir yn Hwrlu Bwmp ac o'r glöyn byw yn hedeg o gwmpas. Mae rhywbeth dieithr yn y sychder a'r gwres yma. Mae y ffynhonnau oddeutu Pendinas bron wedi sychu. Y gwartheg yn brefu am ddwfr a bwyd, a'r holl wlad â'i glaswellt wedi marw. Glannau Menai a holl wlad Fôn wedi eu llosgi gan eisiau dwfr. Mae llais y llysiau a'r coed yn gweiddi am law, a'r llaid wedi troi yn lludw. Mae llygod mawr a mân wedi cilio o'r chwarel o eisiau dwfr. Caed neidr wedi marw, fel y bernir, o syched yng Nghoed y Dinas, Gorffennaf 25, 1868. Richard Owen, pregethwr o Fôn, yn dweud fod y gwartheg ym Môn yn marw o eisiau dwfr; dywedai hyn ar ei weddi ddoe, Gorffennaf 26, yn Shiloh, Tregarth. Cannoedd o bobl allan o waith yn Ffestiniog a Chloddfa y Cae am nad oes dwfr i yrru'r peiriannau. Y Felin Fawr wedi sefyll. Ogwen bron a sychu. Hen bobl tri a phedwar ugain oed fel Robert Owen, Tyddyn Dicwm, ddim yn cofio y fath sychder. Yr oedd y samons yn marw ac yn drewi'n dost ym Mharc y Penrhyn. Dywed rhai fod dwfr yn chwe cheiniog y chwart yng Nghaergybi y dyddiau diweddaf. Cerid dwfr gyda'r trên o Fangor i Gonwy'. "Yna daw'r nodyn gorfoleddus" meddai Marian: 'Dyma law braf yn dechrau, Gorffennaf 28, o hanner awr wedi pedwar y pnaun. Diolch, O diolch i'r Arglwydd am dano.' "

o Meddwn I gan Syr Ifor Williams, Chwefror 9, 1941.

I oedolion yn unig... pos y mis

Cawsom gyfres o luniau yn ddiweddar trwy law ein cyfaill o Lydawr nad ydynt efallai yn addas i gylchgrawn teuluol ond sydd, serch hynny, yn gwbl addas i Llên Natur. Dyna pam i mi (Gol.) eu rhoi yn Oriol Llên Natur heb dynnu gormod o sylw atynt. Os am eu gweld, ewch i'r Oriol ar y wefan a chwiliwch am y gair **cenhedlu**. Mae'r capsion Ffrangeg yno yn rhoi i ni ein **pos y mis hwn**, sef **pa enwau coed sydd yn y rhigwm Ffrangeg?** a pha ystyron dwbl gallwch eu gweld ynddynt? Bydd tocyn llyfr £10 yn aros y sawl sy'n cynnig yr ateb gorau cyn 15 Mawrth. Chwilyddid? 'Sgwn i faint o *hits* fydd y llun yn ei gael...!?



Un o doriadau leino yr artist Ann Lewis sydd yn cael eu harddangos ar hyn o bryd